sir ddinbych
denbighshire
Cyngor
County Council

## COFNOD O BENDERFYNIAD GAN AELOD CABINET

**Penderfyniad a wnaed gan:**

Aelod Arweiniol dros Dai a Chymunedau

**Dyddiad y penderfyniad:**

3 Tachwedd 2020

**Dyddiad cyhoeddi'r penderfyniad:**

4 Tachwedd 2020

**Penderfyniad:**

POLISI DYRANIADAU TAI A COVID 19

Parhau â'r diwygiad i'r Polisi Dyraniadau, am gyfnod pellach o 3 mis o 19 Hydref 2020.

**Bwriad y penderfyniad:**

Ceisio cymeradwyaeth i barhau gyda'r newid rhannol a dros dro i'r polisi dyraniadau ar gyfer tai cymdeithasol yn Sir Ddinbych mewn ymateb i effaith Covid-19 ar lety dros dro / brys ar gyfer aelwydydd digartref.

**Rhesymau dros wneud y penderfyniad:**

Mae'r penderfyniad hwn yn ymateb i gynnydd parhaus mewn darparu llety ar gyfer aelwydydd digartref yn ystod cyfnod clo'r pandemig. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod yn rhaid darparu llety i'r aelwydydd hyn yn barhaol. Mae'r penderfyniad hwn yn cefnogi cynnydd mewn argaeledd yn y tai cymdeithasol i fodloni'r angen digynsail hwn.

**Cysylltiadau a ddatganwyd:**

Dim cysylltiad i'w ddatgan.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r gwaith i gefnogi aelwydydd digartref yn rhan o'r Thema Adfer Tai Covid-19 sydd wedi cael ei hadolygu a'i chefnogi gan yr Uwch Dîm Rheoli, Arweinwyr Grŵp a Briffio'r Cabinet, a Chraffu Cymunedau.

**Yr awdurdod i ddirprwyo'r penderfyniad i'r Aelod Cabinet:**

Gweler y Cynllun Dirprwyo.